# Proses Brofi Dros Dro ar gyfer Ysgolion

Oherwydd rhai o'r heriau a wynebir o ran y broses brofi genedlaethol drwy borth y DU (https://llyw.cymru/gwneud-cais-i-gael-prawf-coronafeirws-covid-19) o ran argaeledd mynediad ac amserlenni lleol, rydym yn cynnig darpariaeth profion lleol ychwanegol.

Bydd staff a disgyblion Caerdydd a’r Fro yn gallu cael mynediad i'r canolfannau profi lleol (yr Eglwys Newydd a Sblot) sydd wedi bod yn gweithredu i gefnogi gweithwyr allweddol (gan gynnwys athrawon) drwy'r pandemig.

Er mwyn defnyddio'r capasiti sydd ar gael drwy'r llwybr hwn orau a sicrhau'r effaith fwyaf posibl, mae'n hanfodol bwysig bod atgyfeiriadau'n cael eu gwneud:

- **Dim ond ar gyfer staff symptomatig neu ddisgyblion** gydag un neu fwy o'r symptomau canlynol
  - tymheredd uchel: mae hyn yn golygu eich bod yn teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu eich cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)
  - peswch newydd, parhaus: mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu dri neu fwy o byliau pesychu mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gall fod yn waeth nag yr arfer)
  - colled neu newid i'ch synnwyr arogli neu flasu: mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch arogli na blasu unrhyw beth, neu mae pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i’r arfer
  - Sylwer: gan ein bod yn dysgu mwy am symptomau yn enwedig mewn plant, byddwn yn diweddaru ysgolion os bydd hyn yn newid
- Os yw mwy nag un person ar yr aelwyd yn symptomatig yna byddwn yn profi pob plentyn/athro ysgol symptomatig ar yr aelwyd. Dylai unrhyw un arall sy'n symptomatig hunanynysu a cheisio profion drwy'r porth cenedlaethol oni bai bod Gwasanaeth Tracio, Olrhain, Diogelu Caerdydd a'r Fro yn cynghori fel arall.
- Yr ysgol/pennaeth a ddylai atgyfeirio i’r awdurdod lleol perthnasol ac nid y disgybl neu’r rhieni’n uniongyrchol.

Disgybl Symptomatig

Aelod o Staff Symptomatig

Ysgol/Penaethiaid yn cymeradwyo'r prawf i'w uwchgyfeirio drwy'r llwybr hwn

A yw'r disgybl neu'r aelod o staff yn symptomatig?

A fyddai canlyniad(au) prawf positif yn golygu bod mwy o blant/swigod yn cael eu hynysu yn yr ysgol? h.y. a ydynt wedi bod yn yr ysgol yn y 48 awr cyn dod yn symptomatig?

Neu a fyddai canlyniad prawf negyddol yn golygu y gallai grŵp swigod/blwyddyn ddychwelyd?

Taenlen atgyfeirio i'w hanfon at awdurdod lleol priodol

ALl Caerdydd - PROFICOVID-19@caerdydd.gov.uk

ALl Bro Morgannwg – COVID-19Testing@valeofglamorgan.gov.uk

Monitro 7 diwrnod yr

Atgyfeiriad yn cael ei wirio a'i anfon i'r Hyb Cyfathrebu a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro –

Dylid cysylltu â Staff a/neu Ddisgybl ar gyfer apwyntiad

**Amserlenni/Disgwyliadau** –

∞ Gall disgyblion a staff ddisgwyl y cysylltir â nhw naill ai'r un diwrnod neu'r diwrnod gwaith nesaf ar gyfer apwyntiad.

∞ Apwyntiad yn debygol o fod yr un diwrnod neu'r diwrnod nesaf

∞ Canlyniad y prawf hyd at 72 awr